



WHAT SUT OLWG FYDD AR DAI YN Y DYFODOL?

Mae peirianwyr yn helpu gwella'r byd o'n cwmpas. Maen nhw'n sicrhau, gyda phoblogaeth sy'n tyfu, bod gan bawb rywle i fyw.

neon
Brilliant Inspiration



**Dinasoedd arnofiol
yn y cefnfor**

**Tai iâ ar
blaned
Mawrth**



**Cartrefi
ailgylchadwy**



**Adeiladau
byw**

Mae peirianwyr
yn greadigol.
Maen nhw'n
datrys
problemau gan
ddefnyddio
gwyddoniaeth,
mathemateg,
cyfrifiadura,
dylunio a
thechnoleg.

**Peiriannwch
eich dyfodol.**



Brilliant Inspiration

Mae'r poster hwn wedi'i ddylunio ar gyfer athrawon dysgwyr ysgol gynradd uwch, er mwyn helpu plant i ddeall sut mae peirianwyr yn datrys problemau mewn cymdeithas, ac i ddatblygu eu dealltwriaeth gysyniadol o wahanol themâu cwricwlwm eang, gan gynnwys:

Gwyddoniaeth

- pethau byw a'u cynefinoedd
- nodweddion a deunyddiau sy'n newid
- daear a gofod
- trydan

Dylunio a thechnoleg

- dylunio, gwneud, gwerthuso a gwybodaeth dechnegol

Cyfrifiadura (Technolegau – Yr Alban)

- llythrennedd digidol
- datblygiadau technolegol mewn busnes a chymdeithas

Cwis gyrfaoedd rhyngweithiol

Gofynnwch i'ch dysgwyr gymryd y cwis gyrfaoedd **Cwrdd â'ch Dyfodol**, fydd yn eu helpu i baru eu sgiliau a'u diddordebau â gwahanol rolau swyddi peirianeg: www.mtfy.org.uk


Gall athrawon sganio yma i ddod o hyd i astudiaethau achos, cysylltiadau defnyddiol a chynnwys pellach sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd amgylcheddol a chynaliadwyedd mewn peirianeg.



Darganfyddwch brofiadau peirianeg, pethau i'w gwneud a mwy ar Neon:
www.neonfutures.org.uk/inspiration-primary

Sut i ddefnyddio'r poster

Rhowch y poster ar fwrdd arddangos (ffisegol neu ddigidol) gyda border fawr o'i gwmpas fel y gall dysgwyr ei anodi neu ryngweithio ag ef. Er enghraifft, gallent:




- Ychwanegu marciau neu sticeri at y math o amgylchedd byw sy'n apelio atynt fwyaf




- Ymchwilio (yn unigol neu mewn parau neu grwpiau bach) i un o'r amgylcheddau byw a/neu'r deunyddiau adeiladu
- Llunio, disgrifio neu ddychmygu hoff le a meddwl am sut i'w wneud yn well (e.e. ar gyfer yr amgylchedd, ac iechyd a mwynhad pobl)

Pwyntiau trafod a gweithgareddau pellach

Trafod neu ymateb yn greadigol i un neu fwy o'r cwestiynau canlynol, fel dosbarth neu mewn grwpiau:



- Sut mae adeiladau'n niweidio'r amgylchedd?
- Sut y gallai adeilad (e.e. stadiwm chwaraeon/siop/ysgol) gael ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd gan bobl leol? (E.e. cae pêl-droed gyda glaswellt y gellir ei symud)



- Pa heriau allai fod wrth ddylunio dinasoedd arnofiol?
- Beth allai gael ei newid neu ei ychwanegu adeilad i helpu ei wneud yn well ar gyfer yr amgylchedd?

